**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

13 Ionawr 2022

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2021 ynglŷn ag ariannu Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol. Byddwch wedi gweld bod y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022 i 2023 bellach wedi cael chyhoeddi.

Mae mynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd a’r argyfwng natur yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon, ac yn rhywbeth rydym yn ei gymryd o ddifri. Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sy’n deillio o’r ddau argyfwng hyn bydd angen inni ailasesu'r hyn rydym yn ei wneud ac ymgorffori’r arferion gorau ym mhob un o'n gweithgareddau. Mae ein cytundeb ar gyfer Rhaglen Lywodraethu a Chydweithredu gyda Phlaid Cymru yn nodi rhaglen waith uchelgeisiol, ac mae ein cyllideb ddrafft yn sicrhau buddsoddiadau wedi'u targedu gwerth £1.8 biliwn i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a’r argyfwng natur yn y Chweched Senedd hon.

Mae hyn yn cynnwys £12 miliwn ychwanegol o refeniw a buddsoddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £57 miliwn yn y Goedwig Genedlaethol a Strategaeth Coed Cymru hyd at 2024–25. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o greu Coedwig Genedlaethol sy'n estyn o ogledd Cymru i'r de a hefyd yn cefnogi cymunedau i greu 30 o goetiroedd newydd, cysylltu cynefinoedd a diogelu coetiroedd hynafol. At hynny, rydym yn gwneud buddsoddiadau refeniw ychwanegol gwerth £9 miliwn a chyfalaf gwerth bron £90 miliwn hyd at 2024–25 i wella mannau gwyrdd ar bob graddfa. Mae hyn yn cynnwys Parc Cenedlaethol newydd, y rhaglen Rhwydweithiau Natur, Mannau Lleol ar gyfer Natur, y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, Natur am Byth a'n rhaglen gyfalaf Tirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy i sicrhau bod ein cynefinoedd a'n rhywogaethau mwyaf gwerthfawr yn gallu ffynnu.

Byddwch wedi gweld bod cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer 2022–23 yn debyg yn fras i gyllideb 2021–22. Fel y mae, mae swyddogion CNC a Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal ymarfer sy'n archwilio'r broses o ddyrannu adnoddau CNC yn erbyn ei swyddogaethau statudol ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Bydd yr ymarfer hwn yn llywio sut mae CNC yn dyrannu ei gyllid i gyflawni ei rwymedigaethau statudol, wrth ar yr un pryd gyflawni blaenoriaethau Gweinidogion ar gyfer y flwyddyn i ddod (2022–23) a gweddill tymor presennol y Llywodraeth. Byddwn yn gweithio'n agos gydag CNC dros y misoedd nesaf i sicrhau bod ei gyllid yn ddigonol i gyflawni ei gyfrifoldebau a chefnogi’r gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i effaith yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd